Carwyn Jones AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Counsel General and Leader of the House

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

14 Ebrill 2008

Annwyl Dafydd

RHEOLIADAU CYNHYRCHION PENODEDIG O TSIEINA (CYFYNGIAD AR EU RHOI GYNTAF AR Y FARCHNAD) 2008

Ysgrifennaf atoch er mwyn rhoi gwybod i chi ei bod yn ofynnol torri'r rheol 21 niwrnod er mwyn gweithredu Rheoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu rhoi gyntaf ar y farchnad) 2008 yng Nghymru yn unol â gweddill y DU. Lluniwyd y Rheoliadau hyn a'u gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Ebrill 2008 a byddant yn dod i rym ar 15 Ebrill 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ofynnol er mwyn gweithredu Penderfyniad 2008/289/EC y Comisiwn Ewropeaidd ar fesurau brys mewn perthynas â'r reis a addaswyd yn enetig a nas awdurdodir, sef 'Bt63'. Mabwysiadwyd y Penderfyniad er mwyn atal bwyd neu borthiant sy'n deillio o Tsieina neu sydd wedi'i anfon oddi yno, ac sy'n cynnwys yr organeb a addaswyd yn enetig 'Bt63' neu sydd wedi'i gynhyrchu o'r organeb honno, rhag cael eu mewnforio i'r Gymuned Ewropeaidd .

Mae Rheoliad Rhif 1829/2003 y Comisiwn Ewropeaidd ar Fwyd a Phorthiant a Addaswyd yn Enetig yn nodi na ellir rhoi bwyd na phorthiant sy'n cynnwys deunyddiau a addaswyd yn enetig ar farchnad y Gymuned Ewropeaidd oni bai fod yr organeb a addaswyd yn enetig wedi'i hawdurdodi dan y Rheoliad, a hynny yn sgil asesiad diogelwch trwyadl. Ni chaniateir deunyddiau o organebau a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd mewn bwyd na phorthiant ar unrhyw lefel.

Yn unol â Phenderfyniad 2008/289/EC y Comisiwn ni chaniateir i gynhyrchion Bwyd a phorthiant sy'n deillio o Tsieina, neu sy'n cael eu hanfon oddi yno, gael eu rhoi ar farchnad yng Nghymru ond ar yr amod naill ai eu bod yn dod ag adroddiad dadansoddol a ddyroddwyd gan swyddog neu gan labordy achrededig sy'n dangos nad ydynt yn cynnwys yr organeb a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd, 'Bt63', nac wedi'u gwneud ohoni, nac wedi'u cynhyrchu ohoni, neu fod yr awdurdod bwyd wedi cael canlyniadau dansoddi boddhaol wrth iddynt gyrraedd y Gymuned, ar ôl i'r awdurdod hwnnw gynnal profion ar sampl o'r cynhyrchion.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Daeth presenoldeb yr organeb 'Bt63' mewn cynhyrchion reis o Tsieina i'r amlwg am y tro cyntaf ym mis Medi 2006. Roedd y Comisiwn wedi gweithio gydag awdurdodau Tsieina i sicrhau bod cynhyrchion a fewnforiwyd o Tsieina yn cydymffurfio â gofynion y Comisiwn Ewropeaidd a dangosodd canlyniadau profion a gynhaliwyd ar samplau yn sgil hynny fod y rheolaethau perthnasol yn gweithio. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2007, cafwyd bod 'Bt63' unwaith eto mewn cynhyrchion reis ac mae profion a gynhaliwyd ar samplau yn sgil hynny wedi dod o hyd iddo.

Ym marn y Comisiwn, nid yw'r awdurdodau cymwys yn Tsieina wedi gallu rhoi digon o sicrwydd nad oes unrhyw organebau 'Bt63' nas awdurdodwyd mewn reis a chynhyrchion reis sy'n deillio o Tsieina, neu sydd wedi'u hanfon oddi yno. O'r herwydd, mae wedi penderfynu rhoi mesurau ar waith i rwystro cynhyrchion reis sy'n cynnwys 'Bt63' rhag cael eu rhoi ar farchnad y Gymuned Ewropeaidd.

Ni chynhaliwyd asesiad risg o ran 'Bt63' gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) gan nad oes digon o ddata ar gael. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn credu y dylid ystyried deunydd a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd yn "anniogel" yn ôl ystyr y term hwnnw yn Erthygl 14 o Reoliad 178/2002 (EC) (Cyfraith Gyffredinol ar Fwyd). Golyga hyn y dylai gweithredwyr busnesau bwyd roi gwybod i'r awdurdodau gorfodi os oes cynhyrchion o'r fath wedi gadael eu meddiant, a chychwyn gweithdrefnau dan Erthygl 19 i'w tynnu'n ôl a'u galw'n ôl. Mae'r FSA wedi cyhoeddi Rhybudd Bwyd, o'r herwydd, gan ofyn i awdurdodau gorfodi lleol weithredu. Nid yw'r FSA yn ymwybodol o oblygiadau penodol o ran iechyd defnyddwyr sy'n bwyta cynhyrchion reis sy'n cynnwys 'Bt63'.

Mabwysiadwyd Penderfyniad 2008/289/EC y Comisiwn ar 12 Chwefror a rhoddwyd gwybod yn ffurfiol i'r Aelod-wladwriaethau ar 3 Ebrill 2008. Yn dilyn cyfnod i alluogi'r Aelod-wladwriaethau i roi'r mesurau a'r trefniadau perthnasol yn eu lle daw'r Penderfyniad i rym ar 15 Ebrill 2008. Mae angen rhoi Rheoliadau Domestig yn eu lle ar y pryd ar draws y DU, a hynny ar frys. Bydd Rheoliadau tebyg yn dod i rym yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar y dyddiad hwnnw. Felly, pe na bai'r rheoliadau'n dod i rym ar yr un dyddiad, byddai hynny'n arwain at anghysondeb o ran gweithdrefnau ar draws y DU ar gyfer ymdrin â mewnforio cynhyrchion reis a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd o Tsieina i'r DU. Yn ogystal, byddai'r DU yn gweithredu'n groes i'w hymrwymiadau i'r Gymuned Ewropeaidd pe na bai'r gofyniad hwn yn cael ei weithredu yng Nghymru.

Gan ei bod yn ofynnol gweithredu'r Offeryn ar frys, nid yw'r Rheoliadau hyn wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn dros gyfnod o 12 wythnos ac ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ychwaith. Fodd bynnag, cysylltwyd â rhanddeiliaid yng Nghymru gan gynnwys awdurdodau gorfodi lleol a gweithredwyr busnesau bwyd fel rhan o gyfnod ymgynghori byrrach, wythnos o hyd (10 i 17 Mawrth 2008) lle gofynnwyd am sylwadau ar y Rheoliadau drafft. Cynhaliwyd ymarferion ymgynghori ar yr un pryd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

At ei gilydd cafwyd 16 o ymatebion o'r DU: 7 yn Lloegr, 6 yn yr Alban, a 3 yng Nghymru (Kwan Yick UK Ltd, GM Freeze ac unigolyn preifat). Ni chafwyd unrhyw ymateb yng Ngogledd Iwerddon. Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio'n bennaf ar y

trefniadau ymarferol neu ar faterion a oedd yn gysylltiedig â gorfodi'r Rheoliadau ac â chydymffurfio â hwy, yn hytrach na'r angen am y Rheoliadau na'u darpariaethau. Mae'r FSA wedi mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd drwy roi mwy o gyngor ac arweiniad i'r awdurdodau gorfodi ac i randdeiliaid eraill. Rhoddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghori ar wefan yr FSA ar: http://www.food.gov.uk/consultations/

Lluniwyd Memorandwm Esboniadol ac fe'i gosodwyd, ar y cyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Caiff copi o'r llythyr hwn ei anfon at Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ac at Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

Yn gywir